

PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD
9 CHWEFROR 2022

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd o bell am 9.30am ddydd Mercher, 9 Chwefror 2022

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd) - eitemau 1 i 3 a 8 i 11 a'r Cynghorydd Haydn Bateman (Is-gadeirydd yn Cadeirio) - eitemau 4 i 7
Cynghorwyr: Dave Hughes – wedi ymuno ar ôl eitem 11, Tim Roberts, Ralph Small

AELODAU CYFETHOLEDIG: Y Cynghorydd Nigel Williams (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), y Cynghorydd Andy Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Eraill y Cynllun) a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun)

HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR): Elaine Williams (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau), Phil Pumford (Cynrychiolydd Aelodau Cynllun Bwrdd y Gronfa Bensiynau)

YMDDIHEURIADAU. Y Cyng. Julian Thompson-Hill (Cyngor Sir Ddinbych).
Panel Ymgynghorol: Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen McWilliam (Cynghorydd Annibynnol – Aon Hewitt), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Sharon Carney (Rheolwr Corfforaethol), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa – Mercer), Kieran Harkin (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa – Mercer)

Swyddogion/Ymgynghorwyr: Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth Cronfa Clwyd), Sandy Dickson (Ymgynghorydd Buddsoddi - Mercer) , Megan Fellowes (Dadansoddwr Actiwaraid – Mercer – cymryd cofnodion), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig)

Siaradwyr gwadd yn cyflwyno yn cynnwys:

Eamonn Gough (Uwch Reolwr Perthynas - Link Fund Solutions) – eitem 7 yn unig, Aidan Quinn (Cyfarwyddwr Cyswllt – Russell Investments) – eitem 7 yn unig, Paddy Bortoli (Russell Investments) – eitem 7 yn unig, Will Pearce (Uwch Reolwr Portffolio - Russell Investments) – eitem 7 yn unig, Carolyn Skuce (Capital Dynamics) – eitem 11 yn unig, Barney Coles (Capital Dynamics) – eitem 11 yn unig, Simon Eaves (Capital Dynamics) – eitem 11 yn unig

35. DATGAN CYSYLLTIADAU (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

36. COFNODION 10 TACHWEDD 2021

Ar dudalen 7, nododd Mr Latham yr argymhelliad o ran hyfforddai cyfrifydd y Gronfa ar eitem 165. Eglurodd mai nod yr argymhelliad oedd penodi hyfforddai cyfrifydd y Gronfa cyn i Gyfrifydd presennol y Gronfa ymddeol, gobeithiwyd bod peth amser cyn hynny. Ond, ers y cyfarfod diwethaf mae Cyfrifydd presennol y Gronfa wedi penderfynu gadael, sy'n creu problem o ran adnoddau a risg llywodraethu. Bydd angen ystyried sut i reoli'r bwch mewn adnoddau yn ystod

cyfnod pwysig dros yr haf pan fydd cyfrifon y Gronfa yn cael eu paratoi a bydd cynlluniau'n cael eu hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law. Gofynnodd y Cadeirydd bod llythyr yn cael ei anfon gan y Pwyllgor at y Cyfrifydd sy'n gadael, Mr Vaughan, yn diolch iddo am ei wasanaeth rhagorol i'r Gronfa.

Gofynnodd Mr Hibbert a oedd unrhyw ddatblygiad yn y broses o ddethol cynrychiolydd aelod o'r Cynllun. Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod yn disgwyl mynychu cyfweiliadau yn ddiweddarach yr wythnos honno.

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2021.

PENDERFYNWYD:

Derbyn, cymeradwyo ac arwyddo cofnodion y cyfarfod ar 10 Tachwedd 2021 gan y Cadeirydd.

37. ADRODDIAD MONITRO PERFFORMIAD A'R WYBODAETH DDIWEDDARAF AR Y FARCHNAD A'R ECONOMI

Cyhoeddodd Mr Harkin bod Mr Buckland wedi gadael Mercer i weithio ar gyfer Cronfa CPLIL arall. Cyflwynodd Mr Harkin Mr Dickson a oedd eisoes wedi bod yn gweithio i'r Gronfa ers peth amser.

Roedd tudalen 22 yn amlinellu gwybodaeth ddiweddaraf y farchnad dros Ch4 2021 a'r chwarter cadarnhaol ar gyfer rhan fwyaf o'r asedau twf, er y nodwyd bod ecwiti'r marchnadoedd sy'n datblygu yn isel.

Eglurodd Mr Harkin bod y pryderon cychwynnol o ran amrywiolyn diweddaraf COVID-19 wedi'u diddymu'n gyflym gan fod y llywodraeth a'r banciau canolog wedi ymateb yn gyflym. Roedd y camau hyn wedi cefnogi cynnydd mewn prisiau asedau yn ystod 2021. Nododd bod anwadalarwydd marchnadoedd wedi cynyddu'n sylweddol ers tro'r flwyddyn a bod perygl geo-wleidyddol wedi cyfrannu at hynny.

Ar hyn o bryd, roedd economïau ledled y byd yn gweld lefelau sylweddol o chwyddiant, yn enwedig yn yr UDA a'r DU. Roedd Cronfeydd wrth Gefn Ffederal yr UDA a Banc Lloegr wedi dechrau codi cyfraddau llog byr dymor mewn ymateb i hynny. Roedd yn credu y byddai'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn gynt na'r hyn a ddisgwyliwyd yn flaenorol ond byddai Mercer a'r Gronfa yn cynnal sgwrs barhaus ar y mater.

Fel y nodwyd ar dudalen 43, cadarnhaodd Mr Dickson bod perfformiad y Gronfa yn 4.7% dros Ch4 2021, a oedd yn rhagori ar y meincnod o 4.2%. Roedd y ffigur 3 blynedd yn adlewyrchu'r perfformiad cyn y pandemig, yn ystod y pandemig a hyd heddiw. Y ffigur oedd 11.9% y flwyddyn, sydd hefyd yn uwch na'r meincnod o 10.4%. Roedd y ddau darged ar gyfer cyfraddau disgownt actiwaraidd o 3.8% a 4.3% yn nodi'r arenillion yr oedd y Gronfa eu hangen er mwyn aros yn llonydd, ac felly roedd y ffigur 3 blynedd o 11.9% yn sylweddol uwch na'r ddau darged actiwaraidd ac roedd y perfformiad gwell wedi cyfrannu at welliant yn y lefelau cyllid.

Nododd Mr Dickson bod tudalen 47 yn nodi bod asedau Byd-eang WPP ac Ecwiti ESG yn perfformio'n dda a bod yr arenillion cadarnhaol eraill o Gyfanswm Dyraniad Tactegol. Roedd marchnadoedd preifat hefyd wedi cynhyrchu arenillion cryf o 22.4% dros y flwyddyn a dychwelodd y Fframwaith Rheoli Arian Parod a Risg 33.6% dros yr un cyfnod.

Holodd y Cadeirydd am y rhagolygon o ran cynnydd mewn cyfraddau llog yn y dyfodol yn yr UDA. Nododd Mr Harkin bod y farchnad yn disgwyl 4 i 5 cynnydd mewn cyfraddau o gronfeydd wrth gefn Ffederal yr UDA dros y flwyddyn, ac oherwydd hyn, roedd hyn eisoes wedi'i brisio gan y farchnad.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor wedi ystyried a nodi'r diweddariad.

38. FFRAMWAITH RHEOLI RISG, LLWYBR HEDFAN A CHYLLID

Fel yr amlinellwyd yn yr adroddiad, cadarnhaodd Mr Middleman bod gan y Gronfa lefel cyllid o 102% ar ddiwedd mis Rhagfyr, sy'n sefyllfa gref o hyd. Roedd y lefel cyllid ar ddiwedd mis Rhagfyr yn is nag yn flaenorol yn bennaf oherwydd ffactorau strwythurol fel profiad aelodaeth ac adferiad McCloud (wedi'u cyfuno roedd y rhain yn rhoi oddeutu 3% o ostyngiad yn y lefel cyllid).

Roedd Mr Middleman yn credu mai'r risg mwyaf ar gyfer y Gronfa oedd parhad chwyddiant eithaf uchel gan fod rhwymedigaethau'r Gronfa yn gysylltiedig yn uniongyrchol â chwyddiant, felly byddai chwyddiant sy'n uwch na'r disgwyl yn golygu cynnydd mewn costau, oni bai bod arenillion o asedau a ddisgwylir yn cynyddu i ddigolledu hynny. Cadarnhaodd y byddai hyn yn fater i'w ystyried yn barhaus mewn Pwyllgorau yn y dyfodol wrth i'r Gronfa gyrraedd y dyddiad prisio actiwaraid ar 31 Mawrth 2022. Risg chwyddiant oedd y risg mwyaf sylweddol ar gyfer y Gronfa gyda chyllidebau cyflogwyr a chyfraniadau yn bwynt trafod allweddol.

Nodwyd addasiad i'r terfynau cyfatebol ym mharagraff 1.11 ynghyd â'r cynllun i addasu'r lefel cyfatebol a ddeler yn yr asedau arenillion uchel yn y gronfa gyfatebol cyn ei fuddsoddi yn y marchnadoedd preifat.

Atgoffodd Mr Latham y Pwyllgor o'r trafodaethau yn y cyfarfodydd blaenorol ynglŷn â gosod sbardun lefel cyllido o 110%. Ers y drafodaeth honno, rhoddwyd ystyriaeth i lywodraethu'r broses i newid y strategaeth pe rhagorir ar y sbardun. Eglurodd Mr Latham bod yr adroddiad yn cynnig bod y Pwyllgor yn cytuno i ffurfioli sbardun lefel cyllido o 110% ac roedd yn cynnwys proses arfaethedig, a oedd yn gosod y terfynau amser a'r cerrig milltir pe bai'r sbardun yn cael ei ddiwallu. Roedd y broses arfaethedig yn cynnwys cyfathrebu gyda'r Pwyllgor i egluro'r newidiadau arfaethedig i gael eu sylwadau. Yn y pendraw, gellir trefnu cyfarfod Pwyllgor arbennig i drafod y newidiadau pe bai unrhyw bryderon o ran lleihau risg yn cael eu codi yn adborth y Pwyllgor.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y sbardun lefel cyllido o 110% a chytuno ar broses lleihau risg sbardun lefel cyllido.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nododd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf o ran Fframwaith Rheoli Risg, Llwybr Hedfan a Chyllid; a
- (b) Cytunodd y Pwyllgor ar y sbardun lefel cyllido o 110% a chytuno ar broses lleihau risg sbardun lefel cyllido.

39. DATGANIAD ARFAETHEDIG Y STRATEGAETH FUDDSODDI

Yn y cyfarfod Pwyllgor blaenorol ym mis Tachwedd 2021, cytunodd yr aelodau y dylid diweddarau Datganiad y Strategaeth Fuddsoddi ("ISS") i adlewyrchu'r ymrwymiad i osod targedau datgarboneiddio ar gyfer y Gronfa. Eglurodd Mrs Fielder y byddai adolygiad manylach o'r ISS yn ddiweddarach eleni. Fel sy'n ofynnol ac fel y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor, cytunodd y Gronfa i drafod y mater gyda chyflogwyr ac fe gadarnhaodd Mrs Fielder na chafwyd unrhyw ymatebion negyddol o ganlyniad i'r ymgynghoriad. Roedd tudalen 100 a 102 Datganiad Arfaethedig y Strategaeth Fuddsoddi yn tynnu sylw at y prif feysydd sydd wedi'u diweddarau.

Mynegodd Mr Hibbert ei safbwynt, er ei fod yn cytuno gyda chynnwys yr ISS diwygiedig, nid oedd yn gallu cytuno â'r argymhelliad. Y rheswm dros hyn oedd nad oedd yn credu bod digon o wybodaeth gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ("WPP") i dystiolaethu dyhead y Gronfa i fod yn 'Fuddsoddwyr Cyfrifol', 'Buddsoddwyr ag Effaith' nac yn 'Stiwardiaid' effeithiol o holl arian y Gronfa oherwydd methiant WPP i ddarparu adroddiad ar eu gweithgareddau benthyca stoc i'r Pwyllgor. Cadarnhaodd Mrs Fielder y byddai'n codi'r mater yng nghyfarfod nesaf is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol WPP.

O ran y Cytundeb Benthyca Stoc, derbyniodd Mr Hibbert bod 5% o stoc yn cael ei gadw ar gyfer pleidleisio ond roedd yn dymuno deall effaith benthyca stoc ar werth y stoc dros y cyfnod benthyca. Roedd hefyd eisiau deall yr amser a gymerir i stoc adennill y gwerth cyn unrhyw fenthyca. Byddai hyn yn ei gynorthwyo i benderfynu a yw'r ffioedd benthyca a delir i'r Gronfa yn darparu'r gwerth ychwanegol fel y disgwylir.

Gofynnodd Mr Hibbert i'r Pwyllgor ofyn yn ffurfiol am weithgarwch benthyca stoc hyd yma gan WPP ac felly roedd yn anghytuno â'r argymhelliad.

Yn ogystal â hynny, nododd Mr Hibbert wall gramadegol yn yr ail baragraff ar dudalen 93, ac fe gadarnhaodd Mrs Fielder y byddai'n cael ei newid cyn cyhoeddi'r fersiwn derfynol.

PENDERFYNWYD:

Ystyriodd, nododd a chymeradwyodd y Pwyllgor Ddatganiad Arfaethedig y Strategaeth Fuddsoddi.

40. CYFUNO ASED AU A DIWEDDARIAD BLYNYDDOL PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

Yn y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ("JGC") diwethaf, cytunwyd y dylid ymestyn y contract gyda Gweithredwr Link Fund Solutions hyd at fis Rhagfyr 2024. Ychwanegodd Mr Latham y gwnaed cynnydd o ran penodi cynrychiolydd aelod cyfetholedig i'r JGC a dylid rhoi hyn ar waith erbyn y JGC nesaf ym mis Mehefin 2022.

Eglurodd Mr Latham na fyddai cynllun busnes WPP yn cael ei gyhoeddi mewn pryd ar gyfer Pwyllgor mis Mawrth 2022, ond byddai ar gael erbyn Pwyllgor mis Mehefin 2022. Yn ogystal â hyn, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ymgynghoriad ar ganllawiau cyfuno asedau CPLIL yn yr haf 2022.

Cadarnhaodd Mrs Fielder y bydd cyflwyniadau gan ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ar gyfer penodi 'dyranwyr' y Farchnad Breifat yng Nghaerdydd yr wythnos ganlynol. Rôl y dyranwyr fyddai dewis y gorau o ran rheolwyr marchnad breifat ar draws y dosbarthiadau asedau gwahanol. Rhagwelir y bydd tendr i benodi Dyrannwr Ecwiti Preifat yn dechrau ym mis Ebrill 2022.

Cyflwynodd Mr Gough ei hun fel uwch reolwr perthynas ar gyfer Link Fund Solutions ac fe eglurodd y cyflwyniad. Eglurodd i'r Pwyllgor bod disgwyl i Link Fund Solutions gael eu gwerthu i drydydd parti o'r enw Dye & Durham ond nid oedd yn credu y byddai hyn yn cael unrhyw effaith o ddydd i ddydd ar WPP. Nododd y byddai gan yr endid gynllun clir ac roedd yn edrych ymlaen at yr hyn sydd i ddod.

Holodd Mrs McWilliam a oedd hyn yn risg ar gyfer y Gronfa. Nid oedd Mr Gough yn credu bod hyn yn risg mawr ond byddai'n diweddarau'r Pwyllgor wrth i'r mater ddatblygu. Cadarnhaodd Mr Latham bod Gweithgor Swyddogion ("OWP") a JGC yn monitro unrhyw risg sy'n gysylltiedig â hyn.

Cyflwynodd Mr Gough strwythur buddsoddiadau WPP o dudalen 123 a'r buddsoddiadau presennol ar gyfer y Gronfa o fewn WPP ar dudalen 124. Ar y cyfan, roedd gan WPP gyfanswm asedau o dan reolaeth o oddeutu £10.5 biliwn fel y nodwyd ar dudalen 125.

Cyflwynodd Mr Quinn ei hun fel cyfarwyddwr cyswllt a Mr Pearce fel uwch reolwr portffolio yn Russell Investments.

Nododd Mr Pearce y pwyntiau allweddol canlynol ar yr eitem hon ar y rhaglen:

- Mae gan Russell Investments ddadansoddwyr ymchwil ledled y byd ac mae eu hymchwil ar reolwyr yn uno rheolwyr buddsoddi ac arbenigwyr rhanbarthol.
- Roedd tudalen 128 yn amlinellu tueddiadau perfformiad y farchnad ers llunio portffolios WPP. Y llinell ddu doredig yng nghanol y graff oedd Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang WPP. Roedd y llinell oren ar y graff yn cynrychioli twf. Nododd Mr Pearce bod mathau penodol o fuddsoddi yn aml yn cynnwys perfformio'n sylweddol well ond dros amser bydd dychweliad cymedr h.y. lle bydd twf yn dod yn ôl ar gyfer mathau eraill.

- Cyflwynwyd dadansoddiad o Gronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang WPP ar dudalen 129. Ychwanegodd Mr Pearce y cyflwynwyd rheolwr newydd yn Siapan ym mis Rhagfyr 2021 o'r enw Nissay i gymryd lle NWQ. Cadarnhaodd y byddent yn parhau i adael NWQ yn ofalus nes bo'r holl gysylltiad yn Siapan gyda'r rheolwr arbenigol arall.
- Roedd y llynedd yn dangos arenillion gwych yn y farchnad ar y farchnad ecwiti. Fel yr amlinellwyd ar dudalen 130, roedd y bar trwm yn dangos bod arenillion sector perfformiad y farchnad ychydig o dan 20%.
- Roedd y tabl ar frig tudalen 131 yn amlinellu perfformiad hyd at 31 Rhagfyr 2021, ac roedd Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang WPP yn is na'r meincnod ar gyfer Ch4 2021. Er hynny, yn hirdymor roedd yn uwch na'r meincnod fel y nodwyd yn y tabl ar waelod tudalen 131.
- Roedd tudalen 132 yn dangos perfformiad y rheolwyr yn erbyn eu meincnodau penodol ar ddiwedd Ionawr 2022 (wedi'u nodi mewn gwyrdd a choch). Eglurodd Mr Pearce os yw Russell Investments yn gwneud eu gwaith yn dda dros amser drwy ychwanegu gwerth, byddai'r cyfan yn wyrdd. Roedd yr amrywiaeth o liwiau yn y siart yn dangos buddion arallgyfeirio gan fod gwahanol arddulliau yn ychwanegu gwerth ar adegau gwahanol yn y cylch economaidd.
- O'r siart sector ar dudalen 133, roedd cyllid yn ordrwm ond o ran rhanbarthau, mae marchnadoedd yr UDA yn parhau i fod yn ddrud felly roedd Cronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang WPP dan bwysau ym marchnad yr UDA ac felly dros bwysau mewn rhanbarthau eraill, yn bennaf marchnadoedd sy'n datblygu ac Ewrop.
- O ran ymchwil rheolwyr, mae'r holl ddadansoddwyr ymchwil yn treulio o leiaf rhywfaint o amser yn canolbwyntio'n llwyr ar ESG.
- O ystyried ymrwymiad cyhoeddus Cronfa Bensiynau Clwyd i gael dim allyriadau carbon net erbyn 2045, mae Russell Investments hefyd wedi cyflwyno targed dim allyriadau carbon net erbyn 2050 ac felly'n gosod y fframwaith ar gyfer tryloywder ac adrodd ar gynnydd y datrysiadau yn erbyn targedau di-garbon net.
- Roedd tudalen 138 yn amlinellu'r cysylltiad â charbon yn erbyn y meincnod. Cadarnhaodd Mr Pearce bod tîm arbenigol sydd wedi gwirio bod arian WPP yn parhau i gael llai o gysylltiad â charbon yn y dyfodol.

Nododd Mr Quinn lansiad Is-gronfa Ecwiti Marchnadoedd sy'n Datblygu WPP y llynedd, a oedd yn ymwneud â Marchnadoedd sy'n Datblygu'n unig. Ychwanegodd y pwyntiau allweddol canlynol:

- Ychwanegwyd arbenigwr Tsiena i'r is-gronfa o ystyried y pwysau cynyddol ym mynegai'r farchnad ac roedd yn credu bod cyfle da yn Tsiena o ran twf a'r farchnad ddomestig.
- Roedd tudalen 142 yn dangos sefyllfa ddiweddaraf yr is-gronfa o ddiwedd Hydref 2021 a'r chwe rheolwr gyda gwahanol arddulliau gan gynnwys arbenigwr Tsiena. Er gwaethaf pwysau bychan sydd gan arbenigwr Tsiena, roedd Mr Quinn yn gyfforddus â'r maint ac yn credu y gall dyfu dros amser.
- Nodwyd crynodeb datgarboneiddio a gweithrediad portffolio uwch ("EPI") ar dudalen 143 ac roedd tystiolaeth bod hyn yn gweithio'n dda ar gyfer WPP.
- O ystyried y dyhead i gael is-gronfa sy'n cyflawni mwy nag enillion ar fuddsoddiad h.y. wedi alinio â thargedau newid hinsawdd, roedd is-gronfa

newydd yn cael ei sefydlu fel yr amlinellwyd ar dudalen 145. Nododd Mr Quinn y byddai papur gyda rhagor o wybodaeth i ddilyn.

Eglurodd Mr Hibbert ei fod yn parhau i gael ei synnu â gweithrediad Russell Investments a gweld y ddamcaniaeth ar waith.

O ran targed di-garbon net Russell Investments erbyn 2050, holodd Mrs Fielder a oedd cleientiaid gyda gwahanol dargedau o fewn WPP a sut yr oedd y cwmni yn delio â'r gwahanol safbwyntiau. Eglurodd Mr Pearce ei fod yn dadansoddi pob cleient yn fyd-eang o ran beth sy'n bosibl o ran rheolwyr di-garbon net. Roedd yn credu bod targedau dros dro (di-garbon net erbyn 2025 a 2030) yn bwysicach i ganolbwyntio arnynt i ddechrau ac wedi hynny byddai'r targed cyffredinol yn dod yn ei flaen mewn amser.

O ran Cod Stiwardiaeth FRC, nododd Mr Dickson nad oedd Russell Investments wedi'u rhestru fel llofnodydd i'r cod a gofynnodd pa gamau y gellir eu cymryd i gyflawni hyn. Eglurodd Mr Pearce bod y Cod wedi newid yn sylweddol yn ddiweddar ac roedd Russell yn gweithio drwy'r gofynion. Byddai rhagor o fanylion am hyn yn y misoedd nesaf.

Gan fod gan reolwyr buddsoddi o fewn strwythur portffolio arddulliau gwahanol, holodd Mr Harkin sut mae Russell Investments yn delio â gwahanol safbwyntiau rheolwyr. Holodd hefyd a oedd ganddynt y gallu i awgrymu eu safbwyntiau eu hunain o ystyried y tebygolrwydd o ddatgymalu cryf mewn cyfraddau llog yn y dyfodol, fel y gwelir yn yr UDA ar hyn o bryd. Eglurodd Mr Pearce fod ganddynt dîm o arbenigwyr sy'n gweithio'n llawn amser fel economegwyr, yn dadansoddi'r farchnad yn ddyddiol, ac yn ystyried cyfraddau llog a diweithdra yn benodol. Ychwanegodd bod un o aelodau'r tîm wedi gweithio ar gyfer Cronfa Wrth Gefn Ffederal yr UDA felly mae'n arbenigwr ar y mater. Safbwynt presennol Russell yw y bydd niferoedd chwyddiant uchel, fel 5% ac uwch, yn lleihau wrth i'r flwyddyn fynd yn ei blaen. O ran y portffolio, o ystyried y lefelau parhaus y tu hwnt i'r twf cyfartalog, bydd chwyddiant yn lleihau.

Ar dudalen 147, nododd Mr Quinn y lansiwyd Cronfa Credyd Aml-ased ("MAC") ym mis Awst 2020 ac eglurodd bod sawl dosbarth asedau tanategol. Roedd BlueBay yn arbenigwr aml-sector ac roedd ganddo fynediad at yr holl reolwyr arbenigol.

Ers ei sefydlu, roedd perfformiad yr is-gronfa o fewn y disgwyliadau h.y. arenillion o 5.47% yn erbyn targed net o 4.11%, ond dros Ch4 2021, darparodd Cronfa MAC arenillion cytbwys, sy'n is na'r targed.

Roedd perfformiad Cronfa MAC dros amser wedi'i adlewyrchu ar y graff ar dudalen 149. Roedd y llinell doredig oren yn cynrychioli'r targed, sef arian parod + 4%, a'r llinellau du toredig yn adlewyrchu disgwyliadau Russell Investments drwy anwadalrwydd. Yn ogystal â hyn, roedd y llinell las yn dangos disgwyliadau perfformiad Cronfa MAC. O hyn, gellir gweld bod Cronfa MAC wedi cael dechrau da ond yn ddiweddar roedd llinell tuedd oren yn symud tuag at yr hyn a ddisgwyilir.

Nododd Mr Quinn bod adolygiad o Gronfa MAC wedi'i amlinellu ar dudalen 150. Cadarnhaodd bod rheolwr y gronfa Man GLG a rheolwr dyled y farchnad

sy'n datblygu wedi cael trafferthion fel dosbarth ased o ystyried y pryderon yn Tsiena. Roedd gwledydd eraill sy'n farchnadoedd sy'n datblygu wedi cael trafferthion hefyd, fel Twrci a Rwsia. Nododd Mr Quinn y byddai'n cadw llygad barcud ar y rheolwr i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas ar gyfer Cronfa MAC.

Holodd Mrs Fielder a oedd y strategaethau o fewn Cronfa MAC yn rhai y gellir eu haddasu mor sydyn ac mor hawdd ag y mae i newid rheolwyr buddsoddi. O ran strategaethau, nododd Mr Quinn eu bod yn seiliedig ar yr hyn y gellir ei ddisgwyl. Gan fod benthyciadau wedi bod yn drafferthus ym mis Mawrth 2020, roedd arenillion uchel hefyd wedi bod yn drafferthus. Er gwaethaf hyn, mae'r holl ddosbarthiadau yn gwneud yn well ar adegau gwahanol am resymau gwahanol, a dyma pam yr oedd yn credu ei bod yn bwysig cael cysylltiad gwahanol â phob un ohonynt. O ran y strategaethau newydd, roedd y rheolwr portffolio yn ystyried sut i reoli hyd a sensitifedd Cronfa MAC i gyfraddau llog a byddai trafodaethau ar y mater yn y misoedd sydd i ddod.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor wedi ystyried a nodi'r diweddariad; a
- (b) Bod y Pwyllgor wedi derbyn y cyflwyniad gan Weithredwr a Rheolwr Buddsoddi Partneriaeth Pensiynau Cymru.

41. DIWEDDARIAD AR FUDDSODDI AC ARIANNU

Cyflwynodd Mrs Fielder y papur ac egluro ers cyflwyno pecyn rhaglen y Pwyllgor, roedd DLUHC wedi cyhoeddi Papur Gwyn Codi'r Gwastad, a oedd yn amlinellu'r disgwyliadau arfaethedig bod gan Gronfeydd CPLIL hyd at 5% o asedau wedi'u dyrannu i brosiectau, sy'n cefnogi ardaloedd lleol. Eglurodd Mrs Fielder nad oedd hyn yn newydd, gan fod Cronfa Bensiynau Clwyd eisoes wedi cefnogi'r ardaloedd lleol ers blynyddoedd gyda dros £132 miliwn o ymrwymadau wedi'u cytuno, sydd eisoes dros y targed o 5%. Yn anffodus, cadarnhaodd Mrs Fielder ei bod yn bosib na fyddai'r camau yr oedd y Gronfa wedi'u cymryd yn flaenorol wedi'u cynnwys yn y targed o 5% ond bod angen aros am yr ymgynghoriad er mwyn deall sut fyddai hyn yn cael ei weithredu.

Ym mharagraff 1.05, cadarnhaodd Mrs Fielder bod y grŵp pwysu wedi symud ymlaen o danwydd ffosil ac yn ystyried cwmnïau da byw yn awr.

Fel y soniwyd yn y cyfarfod diwethaf, roedd Swyddogion ac ymgynghorwyr y Gronfa wedi bod yn ymchwilio mwy o gyfleoedd yn y farchnad breifat ac roedd hyn ar y gweill gyda mwy o ymrwymadau wedi'u hamlinellu yn y tabl ym mharagraff 1.12. Roedd hyn yn cynnwys Capital Dynamics ac roedd mwy o fanylion ar hyn yn yr eitem nesaf ar yr agenda.

O ran y cysylltiad gyda chwmnïau da byw diwydiannol ym mharagraff 1.05, eglurodd y Cynghorydd Bateman ei fod wedi derbyn gohebiaeth gan etholwr oedd wedi mynegi pryderon am hyn. Holodd a oedd Mrs Fielder yn fodlon ateb y llythyr yr oedd wedi'i dderbyn. Cadarnhaodd Mrs Fielder y byddai'n ateb y cais.

PENDERFYNWYD:

Bod y Pwyllgor wedi ystyried a nodi'r diweddariad.

42. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD AT WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd o weddill y cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol yn rhinwedd gwybodaeth eithriedig o dan baragraff(au) 14 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

43. PROSIECTAU YNNI GLÂN YNG NGHYMRU - CYFRIF A REOLIR AR WAHÂN

Cyflwynwyd yr eitem a'i thrafod.

PENDERFYNWYD:

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a chyflwyniad gan Capital Dynamics ar weithredu Cyfrif a Reolir ar Wahân ar gyfer Cronfa Bensiynau Clwyd i fuddsoddi mewn prosiectau ynni glân uniongyrchol yng Nghymru.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb. Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 16 Mawrth 2022. Daeth y cyfarfod i ben am 12:15pm.

.....
Y Cadeirydd